

## **YSGOL GYMRAEG BRO EIRWG**

HEOL RIDGEWAY  
TREDELERCH  
CAERDYDD  
CF3 4AB

Ffôn : 029 2077 7124

Ffacs : 029 20360103

e-bost / e-mail : [ysgolbroeirwg@cardiff.gov.uk](mailto:ysgolbroeirwg@cardiff.gov.uk)

Pennaeth Gweithredol : Mr I. Ellis

Pennaeth Mewn Gofal : Mrs S. Young

Cadeirydd y Llywodraethwyr : Mr H. Phillips

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Croeso i Ysgol Gymraeg Bro Eirwg. Wrth gyflwyno'r llyfryn hwn i chi, estynnwn groeso i'ch plentyn fel disgybl yn yr ysgol. Gyda'ch cydweithrediad chi, gobeithiwn yn fawr y bydd arhosiad eich plentyn gyda ni yn un hapus, ac y bydd yn datblygu'n addysgol a chymdeithasol dros y blynyddoedd. Ceir manylion yma am nifer o bethau sydd o bwys os yw'r ysgol yn mynd i redeg yn effeithiol a'ch plentyn yn mynd i ymgartrefu yma'n hawdd, ac mae'n bwysig eich bod yn eu darllen yn ofalus.

Sefydlwyd Ysgol Bro Eirwg yn 1981 ac mae'n darparu addysg cyfrwng Gymraeg i blant 3 – 11 mlwydd oed sydd yn byw yn nalgylch yr ysgol, ardal Llanrhymni. Y flwyddyn honno gwelwyd yr ysgol yn Y Rhodfa lle saif Coleg Glan Hafren, ac fe symudodd yr ysgol i'w safle presennol ym 1985. Ceir 456 (Mehffin 2018) o ddisgyblion ar y gofrestr, ffigwr sydd yn cynnwys 64 plentyn sydd yn derbyn addysg feithrin rhan amser.

Dylwn nodi'n eglur mai partneriaeth yw addysg; partneriaeth agos rhyngom ni yma a chwithau'r rhieni yn y cartref. Mae eich rhan chi'n eithriadol o bwysig os yw eich plentyn am gael y gorau o fod yn yr ysgol. Ceisiwch roi amser bob dydd i holi ynglŷn â'r gwaith a wnaed yn yr ysgol. Gadewch iddo/iddi ddweud wrthych beth a ddigwyddodd yn ystod y dydd, a beth a wnaed ganddo/ganddi. Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw eich cefnogaeth chi yn y cartref os yw eich plentyn yn mynd i gael yr addysg orau.

Cofiwch bod croeso i chi gysylltu â'r ysgol unrhyw amser os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder am ddatblygiad eich plentyn.

Yn ddiffuant,



Mr. Iwan E. Ellis.



### **Gweledigaeth yr Ysgol**

Ein pwrpas yw creu amgylchedd hapus, ddiogel, ddatblygiadol o fewn ethos Gymraeg fyrlymus ac anogol, lle y gall pob aelod o gymuned yr ysgol dyfu mewn hunan-barch a datblygu eu potensial fel dinasyddion.

Mae ein bryd ar godi safonau a chynnig darpariaeth o'r radd uchaf mewn sefydliad effeithiol ac effeithlon.

## Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae gan yr ysgol Gorff Llywodraethol ag iddo 16 o aelodau. Mae'r corff yn cynnwys pump rhiant a etholwyd gan rieni'r ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr yn chwarae rhan bwysig iawn sy'n cynnwys cyfrifoldeb am arolygu pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Hefyd, mae ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud trwy gynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei nodau ac amcanion.

<u>Cadeirydd</u>	Mr. H. Phillips
<u>Is-Gadeirydd</u>	Mrs. R. Robjohn
<u>Yn Cynrychioli</u>	<u>Enw</u>
A.A. Ll.	Mr. S. Andrews Mr. H. Phillips <i>Lle gwag</i> <i>Lle gwag</i>
Cymunedol	Mr. G. Conolly Mr. G. Morris Mrs. R. Robjohn Mrs. E. Ryan
Rhieni	Mrs. B. Carr Mr. L. Kelly Mrs. D. Lewis Mrs. E. Mitchell-Williams Mrs. K. Normansell
Staff	Mrs. P. Jenkins
Athrawon	Mrs. L. Pittard Mrs. S. Young
Pennaeth	Mr. I. Ellis
Clerc	Mr. A. Powell

### Awdurdod Addysg Lleol

Adran Ysgolion a Dysgu Gydol Oes,  
Cyngor Sir Caerdydd,  
Neuadd y Sir,  
Glanfa'r Iwerydd,  
CAERDYDD.  
CF1 5UW.

Ffôn : 029 20872000

### Staff yr Ysgol

Pennaeth Gweithredol                      Mr. I. Ellis

Pennaeth Mewn Gofal                      Mrs. S. Young

Pennaeth Cynorthwyol                      Mr I. Davies

#### Athrawon

Mrs. C. Bennett

Miss. N. Bryant

Miss. C. Davies

Mr. I. Davies

Mrs. B. Ellis

Mr. E. Ellis

Mr. H. Griffiths

Miss. S. Griffiths

Mrs R. McGuinness

Mrs S. Hall

Mrs. R. Hardy

Mrs. A. Hodgson

Miss. L. Howells

Mrs. R. Parry

Mrs L. Pittard

Mrs. L. Powell

Mrs. J. Rhisiart

Mrs. R. Rosser

Mrs G. Stephens

Mrs. A. Stevenson

Mrs. S. Williams

#### Cynorthwywyr Dosbarth

Miss. M. Brunt

Mrs. B. Burgess

Ms. S. Coulton

Mr. H. Davies

Mrs. M. Davies

Miss. G. Fenner

Mrs. M. Gainsbury

Mrs. K. Gregory

Mrs. C. Hate

Mrs. N. James

Mrs. A. Jenkins

Mrs. P. Jenkins

Miss. C. Jones

Mrs. R. Latner

Mr. B. Lewis

Mrs. K. Lewis

Mrs. C. Richards

Ysgrifenyddesau

Mrs. S. Davies

Mrs. N. Mace

Gofalwr

Mr. I. Burgess

Cogyddes

Mrs. S. Janicijevic

Arolygwyr Amser Cinio

Mrs. H. Dwyer

Mrs. J. Hornblow

Mrs. R. Meyrick

Mrs. K. Parsons

Mrs. V. Probert

### ORIAU DYSGU

Cyfnod Sylfaen

23 awr 10 munud yr wythnos

Cyfnod Allweddol Dau

24 awr yr wythnos



## Y DIWRNOD A THREFNIADAETH YR YSGOL

Oriau Ysgol	
Meithrin	9:00 am - 11:30 am 12.45 pm - 3:15 pm
Derbyn, Blwyddyn 1 a 2	9:00 am - 12:00 pm 1:00 pm - 3:15 pm
Bl 3-4	9:00 am - 12:20 pm 1:15 - 3:15 pm
Bl 5-6	9:00 am - 12:35 pm 1:30 pm - 3:15 pm

### **Cyrraedd yn y bore**

Bydd y plant yn cael mynediad i'r dosbarth meithrin am 9.00yb a 12.45yh. Dewch a'ch plentyn at ddrws y dosbarth a bydd aelod o staff yno i gwrdd â chi.

Bydd plant y dosbarth derbyn yn cael mynediad i'r ysgol wrth ddrws eu dosbarth yng nghefn yr adeilad (ger Clwb Rygbi Rhymni). Bydd y plant yn cael mynediad i'r dosbarth am 9.00yb.

Fe fydd gweddill plant yr ysgol yn ymgynull ar iard yr ysgol ar ddechrau'r dydd a bydd aelodau o staff ar ddyletswydd rhwng 8.50yb a 9.00yb. Ar ddiwrnod gwlyb caniateir i'r plant fynd yn syth i mewn i'r ysgol.

Cofiwch nad yw'r ysgol yn gyfrifol am y plant tan 8.50yb.

Os ydych yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol, bydd angen i chi fynd at y swyddfa er mwyn cofnodi presenoldeb y disgybl yn yr ysgol.

### **Yn ystod y dydd**

Yn ystod y dydd bydd toriad yn y bore a thoriad amser cinio. Yn ystod y cyfnodau yma bydd aelodau o staff ar ddyletswydd yn edrych ar ôl y plant.

Caniateir i'r plant ddod â ffrwyth i'w fwyta yn ystod amser chwarae, ond ni chaniateir i'r plant ddod â melysion gyda nhw i'r ysgol. Mae llaeth ar gael am ddim i'r Cyfnod Sylfaen ac anogir y plant i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol er mwyn iddynt yfed dŵr yn ystod y dydd. Mae ffynhonnau dŵr ar gael yn yr ysgol.

Darperir cinio ysgol ar gyfer y plant am £2.50 y dydd. Cesglir arian cinio ar ddydd Llun.

Mae ffurflenni ar gael yn yr ysgol os ydych am wneud cais am ginio rhad.

### **Amser mynd adref**

Mae'r dosbarth Meithrin yn gorffen am 11.30yb a 3.15yh. Buasem yn ddiolchgar pe byddech yn aros tu allan i'r dosbarth a bydd y plant yn cael eu rhyddhau i'ch gofal pan fydd staff y dosbarth yn gweld bod rhywun yno i gasglu'r plant.

Gofynnwn i rieni'r Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, aros y tu allan i'r dosbarth perthnasol yng nghefn yr ysgol, rhieni blwyddyn 3 i aros wrth y giatiau ger y cabanau a rhieni blynnyddoedd 4, 5 a 6 i aros y tuallan i'r Neuadd Goch. Bydd y plant yn cael eu rhyddhau pan fydd staff y dosbarth yn gweld eich bod yno i'w casglu.

Rydym yn ymwybodol iawn o ddiogelwch plant yn ystod y dydd ac yn sicrhau fod goruchwyliaeth lawn ar ein disgyblion gydol yr amser. Felly hefyd ar ddiwedd y dydd; down i wybod yn fuan pwy sy'n galw am y plant, ac os oes unrhyw newid yn y drefn, dylech roi gwybod i ni ymlaen llaw. Os oes rhiant neu berson sy'n galw am blant fel arfer yn cael eu dal am ryw reswm neu'n methu cyrraedd mewn pryd, dylid gwneud pob ymdrech i roi gwybod i ni.

### **Clybiau brecwast ac ar ôl ysgol**

Mae Clwb Brecwast a Chlwb ar ôl ysgol ym Mro Eirwg. Mae'r Clwb Brecwast yn dechrau am 8.30yb ac mae ar agor i'r holl ddisgyblion o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6. Mae'r Clwb yn darparu brecwast iach yn rhad ac am ddim i'r disgyblion.

Mae'r Clwb ar ôl Ysgol yn rhedeg tan 5.15yh ac ar agor i holl ddisgyblion yr ysgol. Darparwyr allanol sydd yn rhedeg y Clwb ac mae tâl am ddefnyddio'r ddarpariaeth yma.

### **Trafnidiaeth**

Darperir trafndiaeth am ddim i blant oed y Cyfnod Sylfaen sy'n byw ymhellach na dwy filltir o'r ysgol Gymraeg agosaf ac i blant Cyfnod Allweddol 2 sy'n byw ymhellach na thair milltir. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Awdurdod Addysg.

### **Disgyblaeth**

Ni all ysgol lwyddo heb ddisgyblaeth dda. Mae disgyblaeth Ysgol Bro Eirwg yn gadarn ond yn deg ac mae'n bwysig sylweddoli bod rhaid i'r ysgol a'r rhieni gyd-weithio er mwyn datrys unrhyw broblemau sy'n codi – ni all yr un ennill heb y llall. Ein nod yma yw meithrin hunan ddisgyblaeth ym mhob disgybl gan mai dyma'r ddisgyblaeth fydd yn aros gydag unigolyn gydol ei f/bywyd. O dro i dro bydd yn rhaid ceryddu a disgyblu plentyn. Mewn achosion difrifol neu lle mae'r plentyn wedi camymddwyn fwy nag unwaith fe fydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni gan obeithio cael eu cefnogaeth. Mae'n rhaid i blentyn sylweddoli fod yr ysgol a'r cartref yn coleddu'r un safonau a bod gennym ddisgwyliadau uchel – sef sicrhau bod pob plentyn yn gyfrifol, yn parchu eraill ac yn aeddfed wrth ymwneud â chyd-ddisgyblion ac oedolion oddi mewn a thu allan i'r ysgol.

## GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol a gobeithio y gallwn ddiybnu arnoch i annog y plant i'w gwisgo bob dydd. Mae gosod safonau yn un o'n blaenoriaethau fel ysgol ac rwy'n siwr y cytunwch bod ymddangosiad y disgyblion yn arwain at falchder yn yr ysgol, ac y bydd hyn, ar y cyd â disgyblaeth dda, yn arwain at osod a chynnal safonau academaidd uchel.

Glas a choch yw lliwiau'r ysgol a gallwch brynu'r wisg o YC Sports, Crwys Road.

### Merched

Sgert neu drowsus llwyd

Crys polo coch

Crys chwys glas tywyll Bro Eirwg

#### **Haf:**

Crys polo coch

Sgert / Trowsus byr llwyd; neu

Ffrog haf goch a gwyn

#### **Sylwch:**

- **Dylai esgidiau fod yn rai tywyll.**
- **Oherwydd diogelwch ni chaniateir gemwaith ag eithrio oriawr a chlustdlysau bach .**

Hysbysir chi ar ba ddyddiau y bydd eich plentyn yn cael gwersi Addysg Gorfforol. Ar gyfer y gwersi hyn bydd angen Cryst-T gwyn a throwsys byr tywyll.

A fyddech cystal â sicrhau bod enw eich plentyn ar **bob dilledyn mae'n ei g/wisgo yn yr ysgol.**

## DIOGELWCH

Mae clo diogelwch ar holl ddrysau allanol a giatiau'r yr ysgol. Mae arwyddion clir yn arwain ymwelwyr tuag at y brif fynedfa er mwyn iddynt gael mynediad i'r adeilad.

## PRESENOLDEB A PHRYDLONDEB

**Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn dyngedfennol os yw plant i elwa o bob cyfle mae'r ysgol yn gynnig.**

Mae bellach yn hanfodol yn ôl y Ddeddf Addysg eich bod yn ein hysbysu o unrhyw absenoldeb, a rhoi rheswm dros unrhyw absenoldeb gan gynnwys ymweliadau â'r meddyg neu'r deintydd. Ni all yr ysgol awdurdodi unrhyw absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol.

Mae'r Swyddog Lles Addysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn arolygu'r cofrestrau.

Am absenoldebau heb awdurdod ac am wyliau yn ystod tymor ysgol gall achos godi ble bydd yr ysgol yn gofyn i'r Swyddog Lles Addysg i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig o dan Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013.

Mae'r ysgol yn dechrau i bob plentyn am 9.00yb ac mae rhan gyntaf y bore yn sesiwn hanfodol bwysig. Mae cofrestru yn digwydd yn syth, ac fe gesglir rhifau cinio yn ystod yr amser yma. Defnyddir yr amser i amlinellu gwaith y dydd i'r plant hynaf ac i waith llafar holl bwysig i'r plant lleiaf. I'r plant lleiaf mae'n bwysig hefyd iddynt ddatblygu trefn a dod yn annibynnol – cerdded i mewn gyda gweddill y dosbarth, rhoi eu cot ar y bachyn, cofrestru ayyb.

**Rydym yn erfyn arnoch felly i sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol cyn i'r gloch ganu am 9.00yb bob dydd.**

Os yw'n anorfod y bydd eich plentyn yn hwyr gofynnwn i chi roi gwybod i'r ysgol ymlaen llaw os yn bosibl a dod i'r swyddfa i roi gwybod i'r staff yno pan mae eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol. Mae hyn yn bwysig gan y bydd angen newid y gofrestr a'r gofrestr ginio.



**Rhowch y dechrau gorau i'ch plentyn – mae pob diwrnod ysgol yn bwysig.**



## **CYSWLLT Â'R CARTREF**

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plentyn ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus.

Mae cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu trefnu dair gwaith y flwyddyn i rieni drafod cynnydd addysgol a chymdeithasol eu plant gyda'r athro dosbarth a bydd rhieni yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Mae croeso i rieni sy'n dymuno trafod unrhyw agwedd ar addysg eu plant drefnu i wneud hynny ar unrhyw amser drwy gysylltu â'r ysgol a gwnawn ein i gorau i drafod gyda chi mor fuan a phosibl.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybodaeth lawn i ni ynglŷn â manylion personol megis cyfeiriad neu rif ffôn pan fyddant yn newid. Mae'n angenrheidiol bod rhif cyswllt gennym yn ystod y dydd rhag ofn bod rhaid cysylltu â chi mewn argyfwng.

Mae Ffrindiau Bro Eirwg yn Gymdeithas Rieni ac Athrawon gefnogol a phrysur dros ben sy'n trefnu pob math o weithgareddau i rieni a phlant yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r system Schoop i anfon negeseuon a llythyrau i'r rhieni. App sydd angen ei lawrlwytho ar ffôn neu lechen yw Schoop, gan ddefnyddio cod yr ysgol – 8035. Ceir manylion am sut i ddefnyddio'r system, o swyddfa'r ysgol. Mae Cylchlythyr misol yn cael ei ysgrifennu i'r rhieni gyda dyddiadau pwysig a hanesion digwyddiadau diddorol yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyfrif Twitter, yn ogystal â chyfrif i bob blwyddyn ysgol. Rydym yn defnyddio'r cyfrifon i rannu gwybodaeth ac i roi lluniau o'r plant yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau yn yr ysgol, ffordd ardderchog i'r rhieni weld beth mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol.



[@BroEirwg](#)

## **Y CWRICWLWM**

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i ddatblygu yn aelod cyfrifol o gymdeithas, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi, derbyn oddi wrthi a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Fel addysgwyr mewn ysgol Gyfrwng Gymraeg mae gennym y cyfrifoldeb i alluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial gan sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig ac yn cael y cyfle i ddatblygu yn aelod llawn o gymdeithas sy'n brysur newid.

### **Y Cyfnod Sylfaen (Plant 3 – 7 oed)**

#### **Meysydd Dysgu**

- Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol

- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Amcan y Cyfnod Sylfaen yw cyfoethogi plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu.

Caiff plant fwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas a deall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n llawn hwyl ac yn berthnasol i lefel eu datblygiad.

Mae'r cynfod sylfaen yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu drwy brofiad, cymryd rhan a datblygu'r canlynol ymhlith plant:

- sgiliau a dealltwriaeth
- lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol, er mwyn datblygu'r plentyn cyfan
- agweddau cadarnhaol at ddysgu er mwyn iddynt fwynhau a bod eisiau parhau â'u haddysg am gyfnod hirach
- hunan-barch a hunanhyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a chreu perthynas â phlant / pobl eraill
- sgiliau creadigol, mynegi ac arsylwi i hyrwyddo eu datblygiad fel unigolion â ffyrdd gwahanol o ymateb i brofiadau
- gweithgareddau y tu allan lle cânt brofiad uniongyrchol o ddatrys problemau go iawn a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd.

Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu sgiliau llythrenedd a rhifedd y plant. Drwy weithgareddau â ffocws priodol, rhoddir sylfaen gadarn i'r plant ddatblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a mathemateg.

### **Cyfnod Allweddol 2 (Plant 7 – 11 oed)**

#### Pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

##### Pynciau Craidd :

Cymraeg

Saesneg

Mathemateg

Gwyddoniaeth

##### Pynciau Sylfaenol :

Hanes

Daearyddiaeth

Addysg Gorfforol

Celf

Cerddoriaeth

Technoleg

Technoleg Gwybodaeth

Addysg Personol a Chymdeithasol

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb i'r gofynion hyn bydd trefniadaeth y dosbarth yn hyblyg. Dysgir y plant fel uned dosbarth fydd o dan ofal un athrawes/athro sefydlog.

Cynllunir y cwricwlwm ar sail cynnwys pynciau craidd a sylfaen y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Rhoddir ystyriaeth i allu bob plentyn gan fod athrawon yn paratoi'n wahaniaethol er mwyn sicrhau datblygiad pob unigolyn.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymroddiad i'r gwaith fe ddefnyddir amrywiaeth o ddulliau dysgu megis dysgu unigol, dysgu pâr neu grwp a dysgu dosbarth.

Atgyfnerthir y dysgu yn rheolaidd trwy sicrhau profiadau uniongyrchol megis ymweliadau â safleoedd hanesyddol, ymweliadau â'r theatr neu ymweliadau gan gwmnïau theatr mewn addysg a siaradwyr gwadd.

### **Addysg Grefyddol**

Nid yw'r ysgol yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.

Y mae addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Cynhelir cyfnod o gyd-addoli yn ddyddiol, ond gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

### **Addysg Gorfforol a Chwaraeon**

Rhoddir cyfle llawn a chyfartal i bob disgybl i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd chwaraeon yn yr ysgol.

Dysgir chwaraeon mewn gwersi wythnosol a rhoddir pwyslais ar gymnasteg, dawns, chwaraeon ac athletau. Disgwylir bod y plant yn gwisgo'n addas ar gyfer y gwersi hyn – crys-T, trowsus byr ac esgidiau chwaraeon ar gyfer gwersi athletau / chwaraeon, yn droednoeth ar gyfer dawns / gymnasteg.

Bydd y gwersi dawns a gymnasteg yn cymryd lle yn y neuadd a'r gwersi chwaraeon ac athletau yn cymryd lle ar y cae neu'r iard.

Mae tir ardderchog gan ein hysgol ac mae gennym gae mawr a chwrt caled.

Ymgymerir ag amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon yn ystod y flwyddyn lle y bydd plant yn cynrychioli'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys nofio, rygbi, criced, pêl rwyd, pêl-droed ac athletau.

Mae unrhyw blentyn sy'n cymryd rhan yn cynrychioli'r ysgol a chydabyddir hyn fel braint sy'n gyfartal â chyflawniad academaidd ac artistig. Mae hefyd yn meithrin ysbryd cyddynnu ac yn datblygu sgiliau. Rydym yn anelu at roi cyfle i blant o bob gallu gymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd o'r Ganolfan Hamdden gyfagos ac yn buddio o arbenigwyr chwaraeon allanol yn ogystal ag arbenigedd o fewn yr ysgol.

Caiff disgyblion Blwyddyn 3 wersi nofio, fel arfer, yn ystod tymor y Gwanwyn.

### **Cerddoriaeth**

Mae nifer o'n athrawon yn gerddorol iawn ac felly medrwn gynnig cyfleoedd o'r radd flaenaf i'n disgyblion. Rhoddir cyfle iddynt hefyd i ddysgu sut i ganu nifer o offerynnau cerdd yn yr ysgol. Daw athrawon teithiol i ddysgu plant o Flwyddyn 3 i 6 yn y canlynol:

Gitar, Prês, Chwythbrennau, Telyn, Ffidil, Piano

Codir tâl am y gwersi yma – os ydych am ragor o fanylion cysylltwch â'r Pennaeth Mewn Gofal. Mae perfformio yn ran pwysig o'u datblygiad cerddorol ac felly rhown gyfle iddynt yn fynych i berfformio mewn cyngherddau, gwasanaethau, ac yn y gymuned.

### **Gwaith Cartref**

Rhoddir gwaith cartref yn gyson i blant yr Cyfnod Allweddol 2 ac yn achlysurol i'r Cyfnod Sylfaen. Mae pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 yn mynd a llyfr darllen gartref yn rheolaidd a phwysleisir fod darllen yn rhan o waith cartref pob plentyn yn ogystal ag unrhyw waith ysgrifenedig.

Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan oedolion neu waith holi a darganfod ar ran y plant. Gofynnwn am gefnogaeth a chydweithrediad y rhieni er mwyn hybu gwaith y plant.

O dro i dro fe ofynnir i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Efallai y gofynnir i blentyn disglair i wneud gwaith ymchwil ar destun arbennig. Mewn achosion fel hyn gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn i wneud y gwaith.

### **Asesu**

Rydym yn asesu gwaith y plant yn barhaol yn holl bynciau'r Cwricwlwm. Cofnodir asesiadau crynodol yn ffeiliau'r plant a throsglwyddir rhain o ddsbarth i ddsbarth gyda'r plentyn.

Ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd adroddir ar gynnydd disgyblion drwy adroddiad ysgrifenedig gynhwysfawr a thrafodaeth rhwng y rhiant a'r athro dosbarth.

Rhoddir asesiad athro ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (blwyddyn 2) ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6) ac adroddir ar lefel cyrhaeddiad pob disgybl yn y pynciau craidd cyn diwedd y flwyddyn addysgol.

Bydd pob plentyn ym mlynnyddoedd 2 – 6 yn cwblhau profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Bydd canlyniadau'r profion yn cael eu hadrodd i rieni ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

## **ADDYSG RHYW**

Yn unol â gofynion y Deddf Addysg, disgwylir i Gyrrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm. Os ydynt o'r farn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth. Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn mai cyfrifoldeb rhieni ac athrawon ar y cyd yw dysgu addysg rhyw, ac y mae angen dealltwriaeth lawn o rôl pob un sydd ynghlwm â'r gwaith.

Mae llywodraethwyr yr ysgol hon wedi penderfynu cyflwyno addysg rhyw fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Gwneir hyn fel rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Ymhob agwedd o addysg rhyw, ystyrir yr unigolyn wrth wneud unrhyw waith neu gynnal unrhyw drafodaeth a cheisir bod yn sensitif i'w haeddfedrwydd a'u hanghenion.

Mae gennych yr hawl fel rhieni i dynnu eich plentyn allan o wersi Addysg Rhyw. Os dymunwch wneud hyn eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â'r Pennaeth Mewn Gofal.

## **GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL**

Gobeithia'r ysgol sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau all-gyrsiol a drefnir. Cynnigir amrywiaeth eang o weithgareddau e.e. chwaraeon, canu a pherfformio a'r Urdd i holl ddisgyblion yr ysgol sydd ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt.

## **ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

Mae gan yr ysgol bolisi o gyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion beth bynnag eu rhyw, eu cred a'u gallu. Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg eang, gytbwys, gydlynol, berthnasol a gwahaniaethol. Darperir polisi a rhaglen waith ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig sy'n cyd-redeg â gweithgarwch y dosbarth a'r ysgol gyfan.

Bydd plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig yn derbyn Rhaglen Addysg Unigol i'w helpu gyda'u datblygiad addysgiadol. Mae'r cydlynnydd anghenion ychwanegol a'r cynorthwywyr dysgu yn rhoi sylw ychwanegol i unigolion ac i grwpiau o ddisgyblion.

Trwy ddefnyddio'r Côt Ymarfer ar Adnabod Anghenion Arbennig a'u Hasesu, mae'r ysgol yn cydnabod fod yna anghenion addysgol arbennig i'w cael ar draws yr ystod oedran a gallu, a'i hamcanion felly yw rhoi y ddarpariaeth orau o ateb gofynion unigolion.

## **TREFN DIOGELU PLANT**

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n mynychu'r ysgol. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â threfn diogelu plant y Sir, i sôn am y mater wrth athro diogelu plant dynodedig yr ysgol.

Gall athro diogelu plant dynodedig yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i athro diogelu plant dynodedig yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth Mewn Gofal yw athro diogelu plant dynodedig yr ysgol.

### **MATERION MEDDYGOL**

Mae nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

Ar wahanol adegau yn ystod eu hamser yn yr ysgol bydd plant yn cael archwiliadau iechyd amrywiol. Rhoddir gwybod i rieni os oes angen triniaeth ddilynol.

Os yw plentyn yn sâl neu wedi cael damwain, cysylltir â'r rhieni yn syth os yw'r achos yn rhy ddifrifol i drin y clwyf.

Ni ddylid anfon unrhyw fath o foddion i'r ysgol gyda'ch plentyn. Os yw'n anorfod bod yn rhaid i'ch plentyn gymryd moddion yn ystod y dydd, bydd rhaid trafod y mater gyda'r Pennaeth Mewn Gofal.

### **CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU YSGOL**

Mae'n ofynnol i Gyrrff Llywodraethol Ysgolion gael polisi ynglŷn â chodi tâl am weithgareddau ysgolion. Amcanion y polisi yw:

- I gadw'r hawl i addysg rad
- I sicrhau bod gweithgareddau'r ysgol ar gael i'r holl ddisgyblion, er gwaethaf gallu neu barodrwydd rhieni i gyfrannu at y gost. Pwysleisir nad oes gofyn statudol i godi tâl am addysg neu weithgareddau perthnasol, ond fe roddir hawl i Awdurdodau Addysg a Chyrff Llywodraethol i godi tâl am rai gweithgareddau pan fo angen.
- Cadarnhau hawliau Awdurdodau ac Ysgolion i wahodd cyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol neu gefnogi unrhyw weithgaredd a drefnir – bod hynny yn ystod neu wedi oriau ysgol.

### **Ymweliadau Dosbarth**

Mae ymweliadau o'r ysgol yn cyfoethogi addysg y plant ac mae'r cyfleoedd i ymweld â mannau y tu allan i'r ysgol yn codi'n rheolaidd. Yn yr achosion hyn, mae angen cludiant ac ar brydiau mae angen tâl mynediad i wahanol leoedd. Rydym yn ymwybodol o'r baich ariannol sydd ar rieni ac mae'r ysgol yn sicrhau na fydd cost unrhyw ymweliad yn afresymol. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw riant i gyfrannu tuag at y gweithgareddau hyn. Pe bai rhieni

yn dewis peidio cyfrannu, rhoddir hawl i'r Pennaeth ddileu gweithgaredd os yw'r gost yn ei farn ef yn afresymol.

### Gweithgareddau Preswyl

Pan fo gweithgaredd ysgol yn hawlio fod plentyn yn treulio un noson neu fwy oddi cartref mae gan yr ysgol hawl i godi tâl am fwyd a llety. Fel gyda'r gweithgareddau eraill, os gwêl yr ysgol fod cost cynnal y cyrsiau hyn yn ormod o faich ar gronfa'r ysgol rhoddir yr hawl i'r Pennaeth ddileu'r cwrs.

### TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol. Darperir copi i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn. Mae'r drefn gwyno ar gael o'r ysgol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r athro dosbarth neu'r Pennaeth Mewn Gofal. Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn neu os am weld unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm.

### DIOGELWCH

Rydym yn anelu at gael ysgol ddiogel i'r plant. Gofynnwn i chi felly gadw'r pwyntiau canlynol mewn côf :-

1. *Goruchwyliaeth* - Nid oes goruchwyliaeth athro ar iard yr ysgol tan 8.50am.
2. *Ceir* - Nid oes lle i'r rhieni barcio yn yr ysgol. Atgoffwn bawb i barcio'n synhwyrol ar Ridgeway Road gan ystyried diogelwch y plant sy'n cerdded ar hyd y palmant a pharchu hawliau cymdogion yr ysgol. Mae gennym drefniant â'r clwb rygbi sydd yn galluogi rhieni i ddefnyddio y maes parcio yno ar adegau megis Prynhawn/Noson Agored. Does dim mynediad i'r ysgol rhwng 8.45am – 9.10am a 3.00pm – 3.30pm.
3. *Y drysau* - Mae drysau yr ysgol ar glo yn ystod y dydd. Gofynnwn i bawb ddefnyddio'r ffôn drws i ofyn am fynediad.
4. *Ymweld â'r dosbarth* - Gofynnwn i bob rhiant alw yn swyddfa'r ysgol cyn ymweld ag unrhyw ddosbarth.

### TROSGLWYDDO I'R YSGOL UWCHRADD

Bydd disgyblion Bro Eirwg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Bro Edern ar ddiwedd blwyddyn 6. Bydd amrywiaeth o weithgareddau trosglwyddo yn cael eu cynnig fel bod y trosglwyddo i addysg uwchradd mor rhwydd a phosibl.

**DYDDIADAU'R TYMHORAU A'R GWYLIAU AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD**  
**2018/2019**

TYMOR YN CYCHWYN		HANNER TYMOR		GORFFEN
		CYCHWYN	GORFFEN	
Tymor yr Hydref 2018	Llun 3 Medi 2018	Llun 29 Hydref 2018	Gwener 2 Tachwedd 2018	Gwener 21 Rhagfyr 2018
Tymor y Gwanwyn 2019	Llun 7 Ionawr 2019	Llun 25 Chwefror 2019	Gwener 1 Mawrth 2019	Iau 12 Ebrill 2019
Tymor yr Haf 2019	Llun 29 Ebrill 2019	Llun 27 Mai 2019	Gwener 31 Mai 2019	Llun 22 Gorffennaf 2019

- **Dydd Llun 3 Medi 2018:** Diwrnod HMS
- Ysgol ar gau **Dydd Llun 6 Mai 2019** ar gyfer Gwyl Banc Calan Mai.

**DYDDIADAU'R TYMHORAU A'R GWYLIAU AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD**  
**2019/2020**

TYMOR YN CYCHWYN		HANNER TYMOR		GORFFEN
		CYCHWYN	GORFFEN	
Tymor yr Hydref 2019	Llun 2 Medi 2019	Llun 28 Hydref 2019	Gwener 1 Tachwedd 2019	Gwener 20 Rhagfyr 2019
Tymor y Gwanwyn 2020	Llun 6 Ionawr 2020	Llun 17 Chwefror 2020	Gwener 21 Chwefror 2020	Gwener 3 Ebrill 2020
Tymor yr Haf 2020	Llun 20 Ebrill 2020	Llun 25 Mai 2020	Gwener 29 Mai 2020	Llun 20 Gorffennaf 2020

- **Dydd Llun 2 Medi 2019:** Diwrnod HMS
- Ysgol ar gau **Dydd Llun 4 Mai 2020** ar gyfer Gwyl Banc Calan Mai.



## **Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2018 (Diwedd y Cyfnod Sylfaen - Disgyblion)**

		N	D	W	1	2	3	4	5	6	A
<b>Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.8	21.4	76.8	0.0
	<i>Cymru</i>	<i>0.1</i>	<i>0.4</i>	<i>0.3</i>	<i>0.2</i>	<i>0.4</i>	<i>0.9</i>	<i>3.1</i>	<i>33.3</i>	<i>61.2</i>	<i>0.1</i>
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg)</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	16.1	62.5	21.4	0.0
	<i>Cymru</i>	<i>0.0</i>	<i>0.2</i>	<i>0.1</i>	<i>0.1</i>	<i>0.2</i>	<i>0.9</i>	<i>7.7</i>	<i>52.8</i>	<i>38.0</i>	<i>0.0</i>
<b>Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0
	<i>Cymru</i>	<i>0.1</i>	<i>0.4</i>	<i>0.4</i>	<i>0.2</i>	<i>0.5</i>	<i>1.6</i>	<i>8.6</i>	<i>50.0</i>	<i>37.9</i>	<i>0.2</i>
<b>Datblygiad mathemategol</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	14.3	62.5	23.2	0.0
	<i>Cymru</i>	<i>0.1</i>	<i>0.4</i>	<i>0.3</i>	<i>0.2</i>	<i>0.3</i>	<i>1.3</i>	<i>7.2</i>	<i>51.5</i>	<i>38.6</i>	<i>0.1</i>

DCS \*\*

Ysgol	75.0
<i>Cymru</i>	<i>87.3</i>

### **Nodiadau**

N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwysu

D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

W: Gweithio tuag at Ddeiliant 1 y Cyfnod Sylfaen.

A: Perfformiad yn uwch na Deiliant 6 y Cyfnod Sylfaen.

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05

\* : Mae'r cohort yn llai na phump neu ni ellir ei gynnwys am resymau cyfrinachedd

\*\* : Wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgwyliwyd yn y canlynol "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Gymraeg)" neu "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg)", "Datblygiad mathemategol", a "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol".

## Adroddiad Cymharol/Dilysiad yr Ysgol 2016 (CA2 - Disgyblion)

		N	D	NCO 1	NCO 2	NCO 3	1	2	3	4	5	6+	4+
<b>Saesneg</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.3	56.4	32.7	3.6	92.7	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.4	0.1	0.1	0.2	0.4	1.4	6.3	46.4	43.0	1.7	91.1
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.3	54.5	32.7	5.5	92.7	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.4	1.2	6.2	45.4	44.0	2.0	91.4
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.1	54.5	34.5	1.8	90.9	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.4	0.1	0.1	0.2	0.4	1.4	6.8	45.0	43.6	1.9	90.5
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	18.2	61.8	16.4	3.6	81.8	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.5	1.8	10.3	50.0	35.2	1.4	86.6
<b>Cymraeg Iaith Gyntaf</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.1	60.0	29.1	1.8	90.9	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.3	1.1	6.8	50.1	39.7	1.8	91.6
Llafaredd	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	7.3	61.8	29.1	1.8	92.7	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.3	0.9	6.3	48.7	41.6	2.0	92.3
Darllen	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.1	56.4	32.7	1.8	90.9	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.3	1.1	7.6	48.3	40.6	1.9	90.8
Ysgrifennu	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	21.8	60.0	16.4	1.8	78.2	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.1	0.0	0.0	0.0	0.4	1.7	11.0	53.1	32.3	1.4	86.8
<b>Mathemateg</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.8	74.5	23.6	0.0	98.2	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.4	1.2	6.0	44.6	45.3	1.8	91.6
<b>Gwyddoniaeth</b>	Ysgol	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	9.1	61.8	29.1	0.0	90.9	
	<i>Cymru</i>	0.1	0.4	0.1	0.1	0.1	0.3	1.1	5.5	45.8	46.2	0.2	92.2

Dangosydd Pwnc Craidd \*\*

Ysgol	90.9
<i>Cymru</i>	89.5

### Nodiadau

N: Ni ddyfarnwyd lefel am resymau heblaw datgymhwysio  
D: Datgymhwyswyd o dan Adran 364 neu 365 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredit bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

NCO1 : Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol

NCO2 : Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol

NCO3 : Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol

Noder bod NCO1, NCO2 a NCO3 wedi disodli lefel W mewn blynyddoedd blaenorol

- : Nid yw'n union sero, ond yn llai na 0.05

\* : Mae'r cohort yn llai na phump neu ni ellir ei gynnwys am resymau cyfrinachedd

\*\* : Wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd

Mae'r data cymharol cenedlaethol yn cyfeirio at 2017

### **Crynodeb o Dargedau y Cyfnod Sylfaen / Summary of Foundation Phase Targets**

% y digybllion ar y "lefel ddisgwyliedig" – Deilliant 5+  
% of pupils at the "Expected Level" – Outcome 5+

	2017/18	2018/19
LLC - Welsh	88	61.4
Mathematical Development	89	70.1
PSDWBCD	98	85.9
Foundation Phase Indicator	86	61.4

% y disgyllion ar y "lefel ddisgwyliedig +1" – Deilliant 6  
% of pupils at the "Expected Level +1" – Outcome 6

	2017/18	2018/19
LLC - Welsh	13	29.8
Mathematical Development	21	38.6
PSDWBCD	87	57.9

### **Crynodeb o Dargedau CA2 / Summary of KS2 Targets**

% y digybllion ar y "lefel ddisgwyliedig" – Lefel 4+  
% of pupils at the "Expected Level" – Level 4+

	2017/18	2018/19	2019/20
English	98.2	94.4	85.5
Welsh	94.5	92.6	76.4
Mathematics	96.4	92.6	87.3
Science	94.5	94.4	80.0
Core Subject Indicator	92.7	92.6	76.4

% y disgyllion ar y "lefel ddisgwyliedig +1" – Lefel 5+  
% of pupils at the "Expected Level +1" – Level 5+

	2017/18	2018/19	2019/20
English	34.5	35.2	34.5
Welsh	30.9	33.3	36.4
Mathematics	23.6	37.0	34.5
Science	30.9	46.3	27.3